TAFLEN GWYBODAETH

Perchnogaeth Anifeiliaid Anwes

Manylion Polisi

- Rydym yn disgwyl i chi fod yn berchnogion anifeiliaid anwes cyfrifol
- Mae amodau'r denantiaeth yn cael eu torri os ydych yn gadael i anifeiliaid anwes ddifrodi eiddo Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) neu achosi niwsans i unrhyw un yn yr gymuned.

Beth 'rydm yn ystyried yn enghreifftiau o niwsans gan anifeiliaid/ anifeiliaid anwes?

- Crwydro heb fod dan ofal y perchennog
- Anifeiliaid yn baeddu mewn mannau cymunedol a/neu erddi a pherchnogion ddim yn clirio'r llanast yn iawn
- Storio anghyfrifol o fwyd anifail (e.e. storio blêr/anaddas a/neu yn denu fermin)
- Anifeiliaid yn swnllyd
- Anifeiliaid/anifeiliaid anwes yn stopio staff neu gontractwyr CCG rhag gwneud eu gwaith
- Ymddygiad bygythiol neu beryglus
- Gormod o anifeiliaid o fewn un cartref
- Arogl annymunol gan anifeiliaid anwes
- Bod yn anghyfrifol wrth fwydo a denu adar gwyllt a/neu fermin (e.e. drwy fwydo gwylanod o fflatiau)

Lles Anifeiliaid – beth mae hyn yn feddwl?

- Rhaid i chi fod yn gyfrifol am ofal a lles eich anifail anwes
- Byddwn yn gweithio gydag asiantaethau eraill i ddelio gyda achosion o greulondeb i anifeiliaid neu gamdrin anifeiliaid yn ein eiddo.
- Rhaid i chi gydymffurfio â Deddf Lles Anifeiliaid 2006 sy'n dweud fod dyletswydd arnoch i ofalu'n iawn am eich anifail. Mae hyn yn cynnwys:

  - Deiet cywir (bwyd a diod)
  - Diogelwch rhag poen, dioddefaint, anaf neu afiechyd
  - Y gallu i ymddwyn yn naturiol
  - Amgylchedd addas i fyw ynddo, gydag anifeiliaid eraill neu ar wahân iddynt.

Pa anifeiliad ni chaniateir mewn cartref CCG?

- Anifeiliaid fferm, er enghraifft defaid, wŷn bach, geifr, moch, gwartheg, ceffylau, merlod, ieir, a hwyaid (mewn rhai achosion eithriadol, cewch ganiatâd i gadw ieir a hwyaid os yw'r cartref yn addas ac os nad yw'r anifeiliaid yn creu niwsans neu ddifrod i'r eiddo gan gynnwys yr ardd)
- Anifeiliaid sydd wedi eu cofrestru dan Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 gan gynnwys er enghraifft mathau o nadroedd gwenwynig, mathau o bryfaid cop ac ymlusgiaid gan gynnwys aligatorod a chrocodeilod.
- Unrhyw gi a nodwyd dan Ddeddf Cŵn Peryglus 1991, gan gynnwys Daeargi Tarw Pydew, Tosa Siapaneaidd, Dogo Ariannin, Fila Brazeliero
- Rhywogaethau prin, megis rhai mathau o adar ysglyfaethus

Gellir cael gwybodaeth gyfredol ar Ddeddf Anifeiliaid Gwyllt Peryglus 1976 a Deddf Cŵn Peryglus 1991 gan Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) yn www.gov.uk/defra.

Am fwy o wybodaeth

Rydym yn eich cynghori i ystyried y cwestiynau sydd yn ein taflen wybodaeth '*Meddwl cadw anifail anwes?*' - cyn penderfynu cael anifail anwes neu beidio- ar gael i'w lawrlwytho o'n gwefan neu drwy ffonio 0300 123 8084.

Cysylltwch a ni ar 0300123 8084, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk neu ar ein gwefan www.ccgwynedd.org am fwy o wybodaeth am gadw anifeiliaid anwes neu am gopi o'r Polisi Anifeiliaid Anwes.

Os hoffech gael y daflen hon mewn fformat gwahanol, fel llythrennau bras neu mewn iaith arall cysylltwch â ni ar 0300 123 8084.

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD

FACT SHEET

Pet ownership

Policy Detail

- We expect you to be a responsible pet owner
- It is a breach of tenancy conditions if you allow pets to damage Cartrefi Cymunedol Gwynedd (CCG) property or to cause nuisance to others in the neighbourhood

What we consider to be nuisance caused by animals or pets?

- Roaming and unattended animals
- Animals fouling communal areas and/or gardens and owners failing to clear the mess
- Irresponsible storage of animal feed (e.g. untidy/ unsuitable storage and/or attracting vermin)
- Animals causing noise nuisance
- Animals/pets preventing CCG staff or contractors in carrying out their duties
- Threatening or dangerous behaviour
- Over-population of animals within a household
- Unpleasant odours from pets
- Tenants acting irresponsibly by feeding and attracting wild birds and/or vermin (e.g. by feeding seagulls from flats)

Animal Welfare – what does this mean?

- You must meet the care and welfare needs of your pet
- We will work with other agencies to deal with cases of animal cruelty or animal abuse in any of our properties
- You must comply with The Animal Welfare Act 2006 which says you have a duty of care when keeping an animal to look after it properly. This includes:

  - A proper diet (food and water)
  - Protection from pain, suffering, injury or disease
  - The ability to exhibit normal behaviour patterns
  - A suitable environment to live with, or apart, from other animals

Which animals are not allowed to be kept in CCG properties?

- Farm animals for example sheep, lambs, goats, pigs, cattle, horses, ponies, chickens, poultry and ducks. (In some exceptional circumstances however, you may be given permission to keep chickens and ducks provided that the property is suitable and that they do not cause nuisance or damage to the property which includes the garden)
- Animals registered under the Dangerous Wild Animals Act 1976 including for example types of poisonous snakes, types of spiders and reptiles including alligators and crocodiles
- Any dog specified under the Dangerous Dogs Act 1991 including Pit Bull Terrier, Japanese Tosa, Dogo Argentina, Fila Brazeliero.
- Endangered species, such as certain birds of prey

Up to date information on both the Dangerous Wild Animal Act 1976 and Dangerous Dog Act 1991 can be obtained fro the Department for Environment, Food and Rural Affairs (DEFRA) at www.gov.uk/defra

For more information

Before deciding to keep a pet we ask that you please consider the questions in our *'Thinking of keeping a pet?'* – fact sheet which is available to download on our website or by contacting us on 0300 123 8084

Contact us on 0300 123 8084, ymholiadau@ccgwynedd.org.uk or on our website www.ccgwynedd.org for more information on keeping pets at your home or for a copy of the Pets Policy.

If you would like to receive this leaflet in a different format, such as Braille, large text or in anotherlanguage contact us on 0300 123 8084

CARTREFI CYMUNEDOL GWYNEDD